The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol
Temple Quay House
2 The Square
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau Cwsmeriaid: 0303 444 5000
e-bost : monaoffshorewindproject@planninginspectorate.gov.uk

Yr Ymgeisydd, National Grid Electricity Transmission plc

Your Ref:

Ein Cyf: EN010137

Dyddiad: 20 Rhagfyr 2024

Annwyl Syr/Fadam

**Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'i diwygiwyd) – Rheol 17**

**Cais gan Mona Offshore Wind Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Mona**

**Cais am ragor o wybodaeth**

Rydym yn ysgrifennu o dan Reol 17 o Reolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'i diwygiwyd).

Cyflwynodd National Grid Electricity Transmission plc (NGET) ymholiad i'r Awdurdod Archwilio (ExA) ar 18 Rhagfyr 2024 mewn perthynas â Darpariaethau Amddiffynnol (PP) [AS-031]. Cododd hyn nifer o bryderon yn ymwneud â chrynodeb yr Ymgeisydd o safbwynt NGET, trafodaethau, materion sy'n weddill a pha mor ddigonol yw'r PPs arfaethedig yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft (dDCO).

Mae'r ExA yn gofyn am wneud pob ymdrech i ddefnyddio'r amser sy'n weddill yn yr Archwiliad er mwyn i'r partïon drafod a chytuno ar eiriad y PPs neu i gyfyngu cymaint â phosibl ar y meysydd lle ceir anghytundeb. Os na allwch gytuno cyn D7, yna gofynnir i'r ddwy ochr gyflwyno esboniad o'r meysydd anghytundeb, y rhesymau pam a'r geiriad sydd orau gennych. Os ydych yn ystyried y byddai/na fyddai eich hoff eiriad yn achosi anfantais, esboniwch hefyd pam mae hyn yn wir. Gofynnir am hyn yn D7 (14 Ionawr 2024).

Lle nad yw'r ExA wedi derbyn cadarnhad neu brawf gan Ymgymerwr Statudol bod PPs wedi'u cytuno, gofynnir i'r Ymgeisydd ddarparu'r un wybodaeth ag uchod ar gyfer pob PP yn y dDCO erbyn **D7** (14 Ionawr 2024).

Mae'n bosibl y bydd Partïon Eraill â Buddiant hefyd am ymateb i'r cais hwn.

Yr eiddoch yn gywir



disability confident EMPLOYER

*Caroline Jones*

**Aelod Arweiniol y Panel o Arolygwyr Archwilio**

Nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.
Edrychwch ar ein Hysbysiad Preifatrwydd cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.